

## PUGH, DAVID (1739 - 1817), clerigwr

**Enw:** David Pugh  
**Dyddiad geni:** 1739  
**Dyddiad marw:** 1817  
**Rhiant:** Jane Pugh  
**Rhiant:** Hugh Pugh  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** clerigwr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Daniel Williams

Ganwyd yn 1739 yn Nolgellau, mab Hugh a Jane Pugh. Aeth i Goleg Hertford, Rhydychen, 1758, a graddio yn 1762. Rhoddwyd iddo reithoraeth Eglwys Fair, Trefdraeth, Sir Benfro, 1770 (fe'i cynigiasid i **Daniel Rowland** flwyddyn ynghynt) a bu yno o 1770 hyd ei farw. Ymwelai yn gyson â **Bowen**iaid Llwyngwair, Sir Benfro; yno, efallai, y cyfarfu â John Wesley gyntaf. Credai mewn Methodistiaeth - ei seiat, ei hysgol Sul - a mynychai gyfarfodydd pregethu, ond ni bu'n amlwg yn ei llysoedd. Pan ddaeth sôn am fudiad ordeinio, a digwydd hynny yn 1811, ffromodd Pugh, ac o dan ddylanwad ei gymydog **David Griffith**, Nanhyfer, troes i ymosod ar ei gyfeillion (**Thomas Charles** yn enwedig) a gefnogai y neilltuad. Yr oedd yn Nhrefdraeth gapel a godwyd 'by the voluntary contributions of divers well disposed persons' (1799) - teulu **Llwyngwair** yn bennaf. Gwrthododd Pugh adael i gefnogwyr mudiad yr ordeinio esgyn i'w bulpud; o ganlyniad, aeth capel Eglwys Fair, Trefdraeth, yn gwbl o ddwylo'r Methodistiaid. Bu farw yn 1816 a chladdwyd yn Nhrefdraeth, 5 Rhagfyr 1816. Yr oedd Pugh yn gydnabyddus â Benjamin La Trobe, yr arweinydd Morafaidd. Brodyr iddo oedd **John Pugh** (1744 - 1799) a **Robert Pugh**.

### Awdur

**Y Parchedig Daniel Williams**, (1878 - 1968)

### Ffynonellau

Evan Jones, *A historical sketch of Newport, Pembrokeshire including the church, castle, town and corporation, antiquities* (Solva 1890)

*West Wales Historical Records* (1910â€"29), iii, 223

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, xix, 125-6; xxix, 34

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*

*Er Clod Saith Bennod ar Hanes Methodistiaeth yng Nghymru*, 66

gwybodaeth gan y Parch Gomer M. Roberts

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746767

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Williams, D., (1953). PUGH, DAVID (1739 - 1817), clerigwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 15 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PUGH-DAV-1739>

Prifysgol

Preifatrwydd a Chwci  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government